# Glas

Rhif 217
Mawrth 2026
Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




**Lili Maesyfed - *Gagea bohemica*.**
Prin iawn - 31/01/2026.
**Ddim Enw**

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

# 2025  Blwyddyn y Gopog

**Dyma fap ‘swyddogol’ o rai o’r copogiaid a gyrhaeddodd Prydain ym 2025, blwyddyn curo holl *records* gwres.**




**Mynydd Hiraethog** 30-4-2025 **Dave Parry**



Y copog cyntaf i gyrraedd Cymuned Llên Natur cyn i ni wybod yn iawn bod mewnlifiad ar droed oedd diwrnod olaf Ebrill 2025 ar Fynydd Hiraethog.



**Ynys Mull** 21-10-2025 **Pat Murphy**



**Ynys Mull,** 22-10-2025 **Rowena Thomas**

Os oes yna esboniad i fod o gwbl am y cyd-ddigwyddiad o DDAU gofnod o gopog yn YR UN WYTHNOS, a hynny gan DDAU AELOD GWAHANOL, o Gymuned Llên Natur, o YNYS MULL (o bobman) efallai mai’r mewnlifiad o gopogiaid a fu ar draws Prydain oedd honno. Yr un copog tybed?

**Ar Wicipedia:** **Aderyn a rhywogaeth o adar yw Copog (sy'n enw benywaidd; enw lluosog: copogion) a adnabyddir hefyd gyda'i enw gwyddonol *Upupa epops*; yr enw Saesneg arno yw *Hoopoe*. Mae'n perthyn i deulu'r *Upupidae* sydd yn urdd y *Coraciiformes*. Dyma aderyn sydd i'w gael yng ngwledydd Prydain ac mae i'w ganfod yng Nghymru. Talfyrir yr enw Lladin yn aml yn *U. epops*, sef enw'r rhywogaeth. Mae'r rhywogaeth hon i'w chanfod yn Asia, Ewrop ac Affrica.**



**Abergwyngregyn** 8-9-2025 **Gavin Gatehouse**

Ond nid  cyd-ddigwydiad oedd y ddau gofnod o Wynedd ym mis Medi – un yn Abergwyngregyn ar y 9ed...



sam
Digital Design & eLearning

...ac un yng Ngwalchmai, pythefnos yn ddiweddarach (pellter o 18 milltir fel yr hed y gopog!), ar y $25^{ain}$. Yr un aderyn?



**Gwalchmai, 26 Medi 2025** **Osian Williams**




**Ardal Abertawe** 10-10-2024 **Sam Needham**

Cafwyd copog hefyd yn ardal Abertawe ar y 10ed o Fedi 2024.



**Uwchmynydd** 19-9-2023 **William Hughes**

Cynhesu hinsawdd mae'n debyg sydd wedi ffafrio **mwy o'r adar hyn i ymgartrefu ym Mhrydain**, i'r graddau bod pâr wedi nythu yn swydd Gaerlyr yn 2023. Hanner canrif yn ôl roedd y syniad bod y rhain yn mynd i nythu y tu hwnt i ddychymyg.






**Edern, Llŷn, 14 Mai 2020** **Mai Scott**

... Fe fuodd o gwmpas yr ardal am rhyw 2 ddiwrnod.

**Mai Scott**



**Tŷ'r Sger, Porthcawl** 10-9-2021 **Angharad Jones**

**Ffaith oddi ar Wikipedia:**
**Mae gan y gopog amddiffynfeydd gwrth-ysglyfaeth datblygedig yn y nyth. Mae chwarren *uropygial* y fenyw sy'n deori ac yn bridio yn cael ei haddasu'n gyflym i gynhyrchu hylif drewllyd, ac mae chwarennau'r cywion yn gwneud hynny hefyd. Mae'r secretiadau hyn yn cael eu rhwbio i'r plu. Mae'r secretiad yn arogli fel cig pydredig.**


# Gwyach gopog ’ta gwyach yddfgoch?

**Ar y 25ain o Ionawr eleni tynnodd un o’n golygyddion Dominig Kervegant y llun isod ger y Gogarth, Llandudno. Mae’n ymddiheuro am ansawdd y llun ond mae’r llun yn adlywyrchu’r anawsterau – pellter ac felly eglurdeb a diffyg golau. Llun da felly i’r pwrpas…**




Ai **gwyach yddfgoch** ydi hwn ynteu **gwyach gopog** sy'n llawer mwy cyffredin - yn wir mae Traeth Lafan cyfagos yn nodedig am y niferoedd o rhain sy’n cynnig gaeafan cyson iddynt. Ond nid pawb sy’n cytuno – rhai ohonoch yn adarwyr o fri. Dyma’ch barn (Dwi wedi dweud fy marn i DB ar Cymuned)…


- Gwyach fawr gopog fasw i'n feddwl. Mae eu lliw nhw'n amrywio dipyn, weithiau'n gymysgedd o blu hydref/gaeaf/gwanwyn. **Arthur Griffiths**
- yn union beth o'n i'n feddwl! **Siân Shakespear**
- Mae AI wedi datgan, felly dyna diwedd arni... [tafod yn y boch Dafydd?] **Dafydd Dyn Blin**




Dyma wyach fawr gopog arall gan EG (isod), efallai flwyddyn yn iau, ond gwisg ddechrau mis Chwefror. Dal i ddweud GFG am lun Dominig? Mae pob un GFG gaeaf efo arlliw o gopa ar ei gorun. **DB**













Ac mae adarydd profiadol fel Alun Williams yn gallu newid ei feddwl

> Ar yr olwg gyntaf roeddwn yn meddwl gwyach yddfgoch ond wrth ail edrych dwi'n cytuno gyda Arthur a Siân, wela'i ddim melyn ar big yr aderyn, y gwddf yn hir hefyd. Llun a dynnais yn Sir Fôn sydd isod o wyach yddfgoch* yn y gaeaf. **AW**

* Yddfddu oedd gan Alun yn y gwreiddiol



**A dyna ni… felly dyma edrych ar y beibil adar… sef ffynhonell dibynadwy (gan gofio beth mae Arthur G. yn ei ddweud uchod am y plufwisg [*pluad* yn GPC] yn amrywio’n fawr), sef yr *Handbook of European Birds*.**



Dyma’r meini prawf i dalu sylw atynt o’r drafodaeth: presenoldeb melyn ar y **pig**, hyd y **gwddf** ac amlygrwydd y **copa**. **CHI sydd biau’r dewis…**

# Prosiect adfer bryniau Elenydd

**Prosiect adfer bryniau Elenydd i'r dyfodol: ydi hi'n hen bryd i ni ollwng y term AIL-WYLLTIO a mabwysiadu term sydd yn llai dadleuol. Syniadau?**



**Mae Tir Natur wedi prynu'r safle yng Nghwm Doethïe yng Ngheredigion oddi wrth ffermwr lleol, ac wedi lansio apêl i godi arian er mwyn sefydlu prosiect ail-wylltio blaenllaw. Mwy yma:**

'Dwi wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r prosiect, yn siarad gyda'n cymdogion a cyflwyno ein hunain ac ati. Profiad difyr iawn - 'dwi wedi mwynhau'n fawr dysgu am hanes yr ardal, ac mae gan y ffermwyr gerllaw straeon bendigedig am natur (a sut mae pethau wedi newid). Dewch draw i weld y safle ryw dro - mae hi wastad yn bleser aros yn Ty'n Cornel neu Dolgoch sydd ar ddwy ochr y safle!

Fe welais i fy sgwarnog cyntaf erioed (ar fy llw) ar fy ymweliad cyntaf, ac fy nhylleuan glustiog gyntaf ddydd Llun wrth ffilmio cyfweliadau gyda S4C.

Mae'r prosiect wedi ei arwain ganddom ni fel Cymry, ac fydd esblygiad y peth yn dibynnu ar bobl fel ni yn ymroi i'r peth, i ddangos fod mwy yn bosib ei wneud dros natur yn ein ucheldiroedd ni. Ac i mi, mae hynny'n cynnwys anifeiliaid yn pori, wrth reswm. **Eben Myrddin Muse**

Ardal fy nghyn-deidiau. Ceffylau a defaid wedi bod yn pori fan hyn am blynyddoedd maith! Gwartheg ar adegau hefyd. Moch? Dim i mi wybod, dim moch rhydd beth bynnag! Base pob fferm wedi cadw mochyn wrth gwrs. Nid ail-wylltio ar y cyfan ond rheoli tir bach yn wahanol yw pwrpas y prosiect fi'n meddwl. Mae'r ardal wedi ei amaethu ers yr oesoedd cynnar yn ôl tystiolaeth archaeolegol. Roedd y diwydiant gwlan yn anferth o oes yr Abatai Sisteraidd ymlaen 10/11G Hanes difyr iawn. Lle i'r gylfinyr cael llonydd!!!

Fel wedodd fy ewythr i ddynes cadwraeth oedd yn rhoi pregeth iddo am planhigyn prin ar ei dir… '*wel with 2000 sheep it wouldn't still be here if I didn't know about it and also knew the grazing patterns to ensure its survival!*'. Gwybodaeth pwysig yn bodoli yn ei ben ef a hithau, y ddau wedi cyrraedd y pwynt lawr dau lwybr hollol wahanol… un trwy profiadau bywyd ac ymarferion ffarmio da a thrwy diddordeb, y llall trwy addysg ffurfiol, gwyddonol - y ddau yn gywir… y tric i gydweithio yw cydnabod deallusrwydd a gwybodaeth y naill ochor a'r llall. Dal hyder yn eu gilydd a gwrando, rili gwrando!!!

**Shan Ashton**

# Un o'r Clan McLeay

**Mae glöyn cynffon wennol MacLeay yn anarferol ymhlith gloÿnnod byw am fod ganddo goesau gwyrdd. Yn aml, mae'n anodd tynnu llun ohono gan ei fod mor aflonydd ond roedd ychydig yn bwydo ar "flodau'r llygad papur"** *(paper daisies)* **yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Awstralia heddiw yn eithaf parod i sefyll am ei lun.** [Cyfieithiad Google Translate] **John Bundock**



**Cysylltais ddoe heb ei adnabod o gwbl gydag un Stuart McLeay a chael yr ateb yma ganddo heddiw:**

*"Alexander MacLeay [a enwodd y glöyn] was from Wick, and his father from Inverness. The McLeay clan was based near Inverness at Contin but dispersed twice, when they were attacked by the lord of the Isles in the 1400s and then again after 1745. My family were in London since 1800, from a Nicholas McLeay who was press ganged on the Isle of Man. So only a shared name. (Alexander used Mc superscript for his signature, and Mac for his scientific work initially). But my DNA searches only take me to the Antrim coast. Working in Australia, I got into the habit of buying old prints of macleaya species illustrations, so we have a room here in Buckley Road with a collection dedicated to Alexander!"* **SMcL**

**Atebais fel hyn:**

*"So my chance message was not entirely in vain! Thank you for taking the time. Is it possible I wonder that you may still find a connection (further back than Antrim). I dare say all clan lineages converge at some point?"* **DB**

*Diolch am hyn. I have been to the botanic gardens outside Canberra a few times in search of MacLeay's swallowtail. The office there told us the location of the most likely trees and we saw two descend from the tree tops. As you say, their movement is very jerky. They are named after Alexander MacLeay who was a keen collector and secretary of the Lineaen Society. Later he was Colonial Secretary in NSW. Many other macleaya species are named after his son and nephew who donated the collection to the University of Sydney, which is where I was working some years ago.* **SMcL**



Tormaen coch / Tormaen cyferbynddail / Tormaen porffor ■ *Saxifraga oppositifolia* ■ Yr Wyddfa ■ 14 Chwefror 2026 ■ Ddim enw



Coed y Brenin ■ 9 Chwefror 2026 ■ Ann James



Eirlysiau ■ 10 Chwefror 2026 ■ Eirlys Edwards-Behi




Trilliw bach yn y stryd, Tregarth ■ 10 Chwefror 2026 ■ Dominig Kervegant



Capel Dewi, Aberystwyth ■ 8 Chwefror 2026 ■ Dafydd Pugh-Jones



Llygaid Ebrill yn y Mis Bach ■ *Ranunculus ficaria (Linnaeus) → Ficaria verna (2020)* ■ Dafydd Morris



Grifft llyffant ■ 11 Chwefror 2026 ■ Rowena Thomas



Clustiau yr ysgaw ■ 8 Chwefror 2026 ■ Llinos Non Parry



Blodau'r drain ■ 4 Chwefror 2026 ■ Derec Owen



Eirlysiau, ardal Diserth ■ 9 Chwefror 2026 ■ Eifion Griffiths



Eirlysiau ■ 10 Chwefror 2026 ■ Alun Williams



Cwpanau robin goch, Tregarth ■ 9 Chwefror 2026 ■ Dominig Kervegant



Gwanwyn ar y trothwy, Clydach, Cwm Tawe ■ 8 Chwefror 2026 ■ Dewi Lewis

# Gwanwyn ar y Trothwy

2026 Llén natur

Cymdeithas Edward Llwyd

## Anturiaethau’r hwyaden benfras

### Anturiaethau’r hwyaden benfras ar draws gogledd Cymru, prin ofnadwy!

**Steve [Roddick] wedi clwad bod [y] ceiliog Hwyaden "Bufflehead" ar Llyn Coron. Aethom [dydd Llun] i edrach fasa ni'n medru ei weld, ond methu. Bore Mawrth ces cwpwl o lunia.** **Wil Williams**


Llun: Wil Williams (Llyn Coron)
12 Chwefror 2026


Llun Eifion Griffiths: Hwyaden lygad-aur, Gwarchodfa Natur Pwll Brickfield, Y Rhyl, 29 Mawrth 2024.

**Dyma galendr taith yr hwyaden benfras (a chymeryd mai UN aderyn sydd dan sylw)**

- Parlwr Du, 6 Rhagfyr 2025.

Darganfuwyd ar Ddydd Sadwrn [20 Rhagfyr?] dwi'n meddwl gang Simon Roberts, roedd un arall neu yr un aderyn yn y Parlwr Du tua pythefnos yn ôl [6 Rhagfyr?].

- Foryd, Caernarfon 20 Rhagfyr 2025. **Eirlys Edwards-Behi**
- Gogledd Cymru. 27 Rhagfyr 2025. [ble?] **John Riley**
- Foryd Caernarfon, 7 Ionawr 2026. **Alun Williams**
- **Ac mae’n dal o gwmpas, ar Lyn Coron, Môn, 10 Chwefror 2026**




■ ■ ■ Faint o adar sydd yma go iawn?

## Tywydd 2025: Blog Paul Wilias

**Paul willias: ecolegydd, mwydryn, garddwr drama.**
**@Wilias_Stiniog**

| 2025 | Glawiad (mm) | Dyddiau Sych | Dyddiau <1mm | Tymh uchaf °C | Tymh isaf °C |
|---|---|---|---|---|---|
| Crynodeb | 2987.54 | 120 | 163 | 32.8 | -4 |




### Uchafbwyntiau tywydd y Blaenau yn 2025

Er fod y $1^{af}$ o Ionawr 2025 yn wlyb a diflas, daeth barrug ac awyr las ar yr $2^{il}$, ac eira ar y $3^{ydd}$ a’r $4^{ydd}$, er ei fod wedi meirioli’n gyflym. Yn ystod Ionawr y llynedd oedd tymheredd isaf 2025 yn Stiniog, sef -4°C.

Mis Mawrth 2025 oedd y sychaf ers 1944 (Met), ac er inni gael fwy o law yn Stiniog na’r cyfartaledd Cymreig, roedd 16 diwrnod yn y mis heb ddiferyn o law yma, a 3 arall efo llai nag 1mm! Hwn oedd y mis sychaf trwy 2025, a bu pla o greithio ar y ffriddoedd o’r 16eg ymlaen, gan barhau yn Ebrill hefyd- y cyfnod gwaethaf posib oherwydd tymor nythu’r adar. Roedd 11 diwrnod cyntaf Ebrill yn sych, a’r tridiau olaf hefyd. Ar ôl hynny parhaodd yn sych am 11 diwrnod cyntaf Mai, er inni gael glaw bob dydd yn yr wythnos olaf.

Cyrhaeddodd y tymheredd dros 30°C ar Fehefin y $19^{eg}$ a’r $20^{fed}$. Bu cyfnodau braf a chynnes iawn ym mis Gorffennaf, a thymheredd ucha’r flwyddyn yn 32.8°C ar y $12^{fed}$ (35.8 gradd oedd yr uchaf trwy Brydain, yng Nghaint). Daeth pedwaredd ton wres -heatwave- y flwyddyn ym mis Awst, ac er i’r $4^{ydd}$ fod y diwrnod gwlypaf o’r flwyddyn bryd hynny, efo 67mm o law (dros ddwy fodfedd a hanner), roedd cyfanswm o 20 diwrnod sych trwy’r mis a dim ond 5 diwrnod efo mwy nag 1mm.

Roedd yn haf cofiadwy iawn, a llawer yn lleol yn ei ganmol fel un oedd yn brafiach hyd yn oed na 1976.

Trodd y rhod i raddau ym Medi gan ddechrau tymor gwlyb iawn yn yr hydref. Dim ond dau ddiwrnod oedd heb unrhyw law ym mis Tachwedd, a chyfanswm glawiad y mis dros 500mm -ia, dros hanner metr (20 modfedd)! Cafwydd barrug/rhew ar foreau’r 19-20-$21^{ain}$.

Digon ansefydlog oedd Rhagfyr: ambell ddiwrnod braf, llawer o ddyddiau budr; daeth gwyntoedd efo storm Bram ar y $9^{fed}$-$10^{fed}$ (85 milltir yr awr yng Nghapel Curig, a rheilffordd Dyffryn Conwy wedi cau oherwydd i goeden ddisgyn ar y cledrau- yn wahanol i’r esgus rhwystredig arferol o ‘lifogydd’). Daeth y flwyddyn i ben efo cyfnod sych iawn: wyth diwrnod sych grimp rhwng yr $20^{fed}$ a Nos Galan, a 4 arall efo llai nag 1mm. Doedd yna ddim Nadolig gwyn, ond roedd barrug ar y ddaear ar y $26^{ain}$ ac roedd wedi rhewi’n galed ar fore ola’r flwyddyn.

**Darn ar gyfer Llafar Bro, papur bro cylch Stiniog, Ionawr 2026 (parhad yn rhifyn Ebrill GLAS)**

Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd

# Coed Cymru

**A** oestrwydden **B** ffigysbren **C** gwernen **D** ffawydden **E** coeden afalau

**F** pren bocs **G** llwyfen Ewropeaidd **H** coeden geirios du **I** derwen

Y Bywiadur + Pl@ntNet Yn y Gymraeg!

**Help (yr enwau gwyddonol):** ■ *Quercus robur* , ■ *Prunus avium* , ■ *Alnus glutinosa* , ■ *Ficus carica* , ■ *Carpinus betulus* , ■ *Fagus sylvatica* , ■ *Ulmus laevis* , ■ *Buxum sempervirens* , ■ *Malus domestica*


1



2




3



4



5



6



7



8



9

